Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

# Taflen Ffeithiau: Rheolwyr Gofal Cartref ar y Gofrestr – 1 Chwefror 2017

## Cyflwyniad

Mae'r wybodaeth hon yn dod o Gofrestr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol sefydliad Gofal Cymdeithasol Cymru.

Ers 2014, rhaid i reolwyr gofal cartref fod yn gymwys ac wedi'u cofrestru gyda ni.

## Nifer y rheolwyr

Roedd 633 o reolwyr ar y Gofrestr, sy'n fwy na nifer y llynedd, sef 618

## Trosiant

Yn y flwyddyn ddiwethaf, **gadawodd** 87 **o reolwyr** y Gofrestr, ac **ymunodd** 102

## Oedran a rhyw

Roedd 511 **o fenywod** a 122 **o ddynion**, a'r oedran cyfartalog oedd 49

## Sectorau cyflogaeth

Roedd 59.7% yn gweithio yn y **sector preifat**, sef gostyngiad o 2.6%

Roedd 25.9% yn gweithio yn y **trydydd sector**, sef cynnydd o 2.9%

Roedd 13.8% yn gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol **awdurdodau lleol**, sef gostyngiad o 0.6%

## Cymwysterau

Mae pob rheolwr gofal cartref yn meddu ar gymhwyster perthnasol, 29% yn dal y Lefel FfCCh Diploma 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Oedolion) i fyny 6%

## Blynyddoedd yn y swydd

Roedd 47.7% o reolwyr wedi bod yn eu swyddi presennol am fwy na pum mlynedd, sef **gostyngiad** o 7.6% dros y pedair blynedd ddiwethaf

## Y Gymraeg

Roedd 34.3% o reolwyr yn siarad rhywfaint o **Gymraeg** neu yn rhugl yn y Gymraeg, sef cynnydd o 1.1%

## Darllen pellach

Gallwch ddarllen adroddiad 'Rheolwyr Gofal Cartref Cymru 2017' yn llawn ar *https://gofalcymdeithasol.cymru/casgliadau/adroddiadau-data-cofrestru-cyfoes*